

1900089 Gwennan Marsh ECAD6008C

Saturday, January 4, 2020 11:04 AM

Enw: Gwennan Marsh

Rhif myfyriwr: 1900089

Llwybr: Uwchradd


Linc l'r llyfryn OneNote: https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o:/g/personal/1900089_student_uwtsd_ac_uk/EtdBOD2mdf5FgQ1yaHI-lCsB8nys24kHjZTtWxagS0emaA?e=m4hHeZ

Mae addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu.

Wednesday, October 30, 2019

4:58 PM


1



Ysgrifennu brawddeg ar ddiwedd y gwrs am rywbeth dysgon nhw o'r wers – 15/11/19

- Gwers gyda blwyddyn 7.
- Roedd y gwrs yma yn edrych ar lafur plant yng ngwledydd tramor sy'n dal yn bodoli heddiw. Gwnaeth y disgyblion gwblhau tasg darllen a deall.
- Roedd y dull yma yn effeithiol oherwydd ysgrifennodd pawb rhywbeth berthnasol, er hyn wnaeth rhai copio ffaith neu darn o wybodaeth o'r darlleniad wnes i ddsbarthu ar gyfer y tasg darllen a deall.

2



Dyma rhai o Bost it notes y disgyblion – 15/11/19.

- Roedd y Post it notes yn dull o brofi dealltwriaeth ddisgyblion o beth dysgon nhw o'r wers.

- Defnyddiais y dull yma gyda dosbarth BI.8 .
- Roedd e'n gwers ar gestyll Normaniaid. Dysgon nhw am beth sy'n dylanwadu ar adeiladu castell. Yn ogystal, dysgon nhw beth sydd angen cael ei ystyried wrth adeiladu castell.
- Penderfynais i ddefnyddio y dull yma i asesu disgyblion oherwydd mae'n ffordd mwy diddorol ar gyfer y disgyblion i gael eu asesu. Ynghyd â hyn, mae'r disgyblion yn cael eu asesu heb sylweddoli.

3



gwers 2
mapio


Cyflwyniad sy'n cynnwys cwis wnes i gyda dosbarth blwyddyn 8. - 19/11/19

- Cynnwys y wers oedd lleoli cestyll ar fap.
- Defnyddiais i gwis fel tasg cychwyn i brofi dealltwriaeth nhw o'r wers blaenorol. Roedd yna gwestiynau oedd yn canolbwyntio ar ffactorau roedden nhw'n ffeindio'n heriol yn y wers diwethaf er enghraifft beth yw ystyr gelynion.
- Roedd hyn yn dull da i ddefnyddio i hybu ddysgu y disgyblion. Defnyddion nhw byrddau gwyn i ateb y gwestiynau a wnaethon nhw mwynhau hyn. Er hyn, yn y dyfodol bydd angen atgoffa'r disgyblion am y rheolau gan roedd rhai bach yn cyffroes wrth ddefnyddio'r byrddau gwyn.

Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer.

Wednesday, October 30, 2019 5:00 PM


4



Tasg darllen a deall gyda Blwyddyn 7 – 11/11/19

- Cynnwys y wers oedd edrych ar lafur plant yng ngwledydd tramor.
- Roedd y dasg yma yn dda i hybu'r disgyblion i ddarganfod y wybodaeth yn annibynnol trwy ddarllen a chwylio am yr atebion i'r cwestiynau.
- Ar ôl gyflawni'r dasg, roedden nhw'n marcio gwaith ei gilydd. Gwnaeth hyn hybu hunan - asesu ac felly roedden nhw'n paarhau i gasglu'r gwybodaeth.


5



Tasg rhifedd gyda blwyddyn 8 - 22/11/19

- Cynnwys y wers oedd i ddefnyddio map a phenderfynu y pethau positif a negyddol am y lleoliad penodol i adeiladu castell.
- Defnyddiais y dasg rhifedd fel tasg bach yng nghanol y wers. Er hyn, cafodd y dasg yma ei greu y munud olaf o'r wers flaenorol gan nad oedd digon o amrywiaeth o dasgau yn wers. Roedd y dasg yn effeithiol. Datblygodd ei sgiliau rhifedd trwy wneud y gwestiynau yn berthnasol i'r topig y wers.
- Byddaf yn ceisio cynnwys mwy o dasgau sy'n debyg i'r un hyn yn y dyfodol.

6




Gwers gyda disgyblion blwyddyn 8 - 6/12/19

- Ar ôl llwyddo cynnwys tasgau rhifedd a llythrennedd yn fy ngwersi, roeddwn i'n awyddus i wneud tasg TGCH gyda'r ddisgyblion.
- Edrychodd y disgyblion ar draddodiadau Nadolig ac hanes y traddodiadau. Ar ôl ystyried traddodiadau Prydeinig, wnaethon nhw ymchwilio mewn i draddodiadau o gwmpas y byd a chreu Pwynt Pwer sy'n cynnwys y wybodaeth gasglon nhw.
- Wrth gyflawni y dasg yma, datblygon nhw eu sgiliau TGCH wrth ymchwilio, casglu'r gwybodaeth a chreu taflen/ cyflwyniad gyda'r gwybodaeth.

Mae addysgu a dysgu da yn golygu defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol.

Wednesday, October 30, 2019 5:00 PM


7



Gwers ar lafur plant gyda dosbarth blwyddyn 7 - 29/11/19

- Pwrpas y wers oedd i gael y disgyblion i ddeall llafur plant a gallu cydymdeimlo gyda phlant yn y byd gwaith trwy ysgrifennu llythyr at berchennog y ffatri fel plentyn oedd yn gweithio y ffatri.
- Roedd y dasg yma yn annog y disgyblion i fod yn greadigol ond trwy barhau dysgu ffeithiau a fod yn ymwybodol o hanes llafur plant.
- Roedd y dasg yn llwyddiannus, er hyn roedd eisiau parhau i wthio rhai disgyblion i ehangu a datbylgu ei pwyntiau o fewn y llythyr. Yn gyfan gwbl, roedd e'n dasg effeithiol.

8



Gwers ar Achosion y Rhyfel Byd Cyntaf gyda dosbarth blwyddyn 9 - 5/12/19

- Roedd y gwers yn canolbwyntio ar y holl ffactorau sy'n cael ei ystyried fel achos y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Roedd y gwers yma yn hybu sgiliau datrys broblemau yn ogystal a feddwl mewn modd beirniadol. Roedd disgwyl i'r disgyblion i ystyried y 4 prif ffactor sy'n cael ei ystyried fel achos y rhyfel, a phenderfynu sut cyfrannodd at achosi'r rhyfel yn ogsytal a phenderfynu yn eu barn nhw, pa un cyfrannodd y fwyaf at ddechreuad y rhyfel.
- Llwyddodd y dasg i gael y disgyblion i fynegi eu barn ond, ni llwyddodd i wthio pob disgybl i ffurfio barn nhw, yn lle, dibynnon nhw gormod ar y daflen gwybodaeth yn unig.

9



gwers 2
achosion ...

Gwers ar achosion y Rhyfel Byd Cyntaf gyda dosbarth Blwyddyn 9 – 5/12/19

- Roedd cynnwys y wers yn canolbwyntio ar achosion y Rhyfel Byd Cyntaf a'r nifer o ffactorau arweiniodd at y rhyfel.
- Gwelir yn y cynllun, y dasg lle roedd y disgyblion yn dychmygu bod nhw oedd y prifweindiog yn y cyfnod cyn y rhyfel, a roedd angen iddyn nhw penderfynu beth oedd y penderfyniadau gorau ar gyfer y sefyllfa.
- Roedd hyn yn ffordd gwahanol o gael y disgyblion i deall y cyfnod a'r sefyllfa cyn y rhyfel trwy feddwl mewn modd beirniadol. Llwyddodd hyn i gael y ddisgyblion feddwl am y cyfnod a deall beth cyfrannodd at ddechreuad y rhyfel.

Cyflwyniad

Saturday, January 4, 2020 11:07 AM

Pwrpas yr aseiniad yw i astudio'r Saith Egwyddor Addysgegol Donaldson. Yn ogystal, i adfyfrio ar wersi i weld sut mae'r tair egwyddor yn arddangos o fewn gwersi penodol. Mae'r aseiniad yma yn ystyried

1. Mae addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu
2. Trwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer.
3. Mae addysgu a dysgu da yn golygu defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol

Mae'r Egwyddorion Addysgegol yn hybu dysgu proffesiynol ac yn sicrhau addysgu gorau ar gyfer budd y disgyblion. Yn ôl Donaldson (2015), mae'r cwricwlwm newydd yn pwysleisio'r pwysigrwydd o baratoi disgyblion ar gyfer y dyfodol. Mae'r egwyddorion yn gwrthio athrawon i ddatblygu'n broffesiynol trwy ddysgu mwy am yr iaith Gymraeg, lles, asesiad a chymhwysedd digidol. Gwelir y nodweddion yma o dan y Saith Egwyddor Addysgegol (Donaldson, 2015). Wrth ymhlygu'r egwyddorion o fewn addysgu, mae'n anelu at berfformiad uchel gan ddisgyblion (Donaldson, 2015). Bydd y traethawd yma yn dangos y cynnydd o fewn gwersi trwy adlewyrchu'r egwyddorion asesu, cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a sgiliau ychwanegol.

Adlewyrchiad Critigol

Wednesday, October 30, 2019

5:00 PM

Fel yr ydym yn ymwybodol, mae asesu yn hanfodol o fewn yr ysgol er mwyn gallu mesur dealltwriaeth y disgyblion a gweld oes yna gynnydd neu gwymp o fewn lefelau gallu disgyblion. Yn ôl adroddiad Donaldson (2015), mae asesiad yn bwysig i ddeall effaith dysgu a llwyddiant disgyblion. Mae'r adroddiad yn pwysleisio dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu fframwaith gwerthuso ac asesu, yn lle dibynnu ar brofion yn unig (Donaldson, 2015). Pwysleisir dylai disgyblion cymryd cyfrifoldeb dros ddysgu ei hunain (Donaldson, 2015). Awgrymir i ddatblygu ffurfiau gwahanol o asesu disgyblion yn hytrach nag arholiadau ar ddiwedd y flwyddyn neu brofion cyson.

Mae Llywodraeth Cymru yn esbonio asesu ar gyfer dysgu fel proses o ddarganfod lle mae dysgwyr o fewn dysgu, a lle mae nhw angen cyrraedd a'r ffordd gorau iddynt gyrraedd y lefel penodol a phersonol (Llywodraeth Cymru, 2010). Nodir, bod asesu yn arwain at ganlyniadau o ansawdd uwch ac yn ysgogi dysgwyr i gymryd diddordeb mewn dysgu personol (Llywodraeth Cymru, 2010). Mae Dylan Williams yn cefnogi y datganiad bod asesu yn hybu dysgu gwell i ddisgyblion. Esbonir, bod asesu o fewn y dosbarth yn cynyddu dysgu disgyblion (Williams, 2018). Mae Williams yn mynd ymlaen i fynegi, bod yna gynydd rhwng 50% a 70% o fewn dysgu disgyblion wrth gael eu hasesu o fewn y dosbarth (Williams, 2018). Cefnogir ymhellach gan Paul Black lle nodir, bod asesiad ffurfiannol yn cynyddu sgorau disgyblion mewn profion yn ogystal ag hyder unigolion o fewn gwersi (Black, 2007). Mae'r ystadegau yma yn cefnogi datganiadau yn yr adroddiad gan Llywodraeth Cymru, bod angen newid modd o asesu disgyblion gan fod asesu trwy brofion ac arholiadau ar ddiwedd y flwyddyn yn canolbwyntio gormod ar raddio a threfnu disgyblion o fewn setiau lefelau gallu (Williams, 2018). Yn ei lyfr mae'n ystyried ffurfiau gwahanol o wella gallu disgyblion cyn symyd yn syth i asesu. Er enghraifft, mae'n awgrymu gwella ac ehangu ar ddealltwriaeth bwnc athrawon i weld os yw'n gwella dealltwriaeth blant. Mae Williams (2018) yn esbonio, gwelir welliant bach mewn llwyddiannau disgyblion, sydd felly yn awgrymu bod asesu yn cael effaith fwy positif ar ddatblygu dealltwriaeth a sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn cyrraedd eu llwyddiannau. Ynghyd â gwaith Williams ac adroddiad gan y Llywodraeth, mae Paul Black hefyd yn dynodi bod asesu yn annog disgyblion i gyrraedd eu hamcanion ac i lwyddo mewn gwersi (Black, 2007). Pwysleisir, bod angen i ddisgyblion ymglymu yn eu dysgu a chymryd rôl o fewn hunan-asesiad er mwyn iddyn nhw ddatblygu fel disgyblion ac fel unigolion (Black, 2007). Mae'n awgrymu mai dysgu disgyblion yw'r ffactor pwysicaf a bod asesu o fewn y dosbarth mewn ffordd fwy naturiol yn hybu llwyddiant a chynnydd o fewn galluedd disgyblion.

Yn y cwricwlwm newydd caiff cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd eu pwysleisio. Caiff athrawon eu hannog i gynnwys sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn eu gwersi er mwyn datblygu sgiliau disgyblion. Wrth gynnwys y sgiliau yma mewn gwersi, mae'n darparu cyfle i ddisgyblion i ehangu ar eu dealltwriaeth gan gynnwys datblygu amrywiaeth o sgiliau wrth blethu'r sgiliau penodol yma mewn i wersi gwahanol.

Mae Denis Hayes (2010), yn nodi bod trawsgwricwlaidd yn cryfhau addysgu trwy gyfeirio at adolygiad Rose 2009 hynny yw, dealltwriaeth o bynciau ysgol yn ogystal â datblygiad corfforol, iechyd a lles disgyblion. Dynodir Hayes, mae cwricwlwm trawsgwricwlaidd yn cynnig ffordd creadigol i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth, gwybodaeth a sgiliau trwy'u hannog i ddefnyddio eu dychymyg i gynnal trafodaethau a datrys problemau (Hayes, 2010). Caiff hyn ei gefnogi gan adroddiad gan Estyn yn Mawrth 2019, lle nodir bod cwricwlwm trawsgwricwlaidd, lles a llwyddiant yn arwain at addysgu a dysgu da trwy lwyddo i gyrraedd y pedwar diben (Estyn, Mawrth 2019). Ar y llaw arall, mae Hayes hefyd yn cyfeirio at y problemau gall codi trwy ddilyn cwricwlwm trawsgwricwlaidd. Esbonir, nad oes gan gwricwlwm trawsgwricwlaidd ffiniau clir a chadarn (Hayes, 2010). Nid oes cysylltiadau cryf neu amlwg gyda rhai pynciau ac felly, mae'n anoddach i blethu elfennau o bynciau eraill mewn gwersi penodol yn naturiol (Hayes, 2010). Ond, gyda phynciau Dyniaethau, mae'r cysylltiadau yn fwy clir ac yn haws i ddilyn cwricwlwm trawsgwricwlaidd (Hayes, 2010).

Ynghyd â hyn, cefnogir cynnwys adroddiad arall gan Estyn gyda gwaith Hayes. Mae adroddiad gan (Estyn, Ebrill 2019) yn ystyried Ysgol Bryn Tawe a sut mae nhw wedi dod a chymhwysedd digidol i

fewn i wersi. Mae'r adroddiad yn esbonio sut cafodd athrawon hyfforddiant mewn Technoleg Gwybodaeth er mwyn gallu sicrhau darparu cymorth da i ddisgyblion mewn gwersi (Estyn, 2019). Yn ôl yr adroddiad, gwelir gwelliant arwyddocaol yn nefnydd Technoleg Gwybodaeth y disgyblion ar draws pynciau'r ysgol (Estyn, 2019). Mae sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn hanfodol ar gyfer sgiliau trawsgwricwlaidd (Estyn, Mawrth 2019). Er hyn, wrth ystyried adroddiadau Estyn, mae angen nodi eu bod nhw ond yn ystyried un ysgol benodol ac felly, gall fod yn wahanol o fewn amrywiaeth o ysgolion. Felly, mae'r darlleniadau uchod yn cefnogi ei gilydd trwy gyfleu pwysigrwydd cwricwlwm trawsgwricwlaidd ar gyfer lles disgyblion. Mae'r tri darlleniad yn annog athrawon i ddod a phynciau ac amrywiaeth o sgiliau i mewn i wersi er mwyn gallu datblygu gallu'r disgyblion ac arwain dysgu annibynnol y disgyblion.

Mae yna nifer o sgiliau hanfodol mae angen eu addysgu o fewn y dosbarth er mwyn sicrhau'r gorau i'r disgyblion. Mae'r un egwyddorion yn cyfeirio at annog disgyblion i ddatblygu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a gallu meddwl mewn modd beirniadol. Mae'r sgiliau yma yn bwysig ar gyfer datblygiad disgyblion. Mae'r sgiliau yma yn paratoi disgyblion ar gyfer bywyd ar ôl gadael yr ysgol. Yn ogystal, wrth ymarfer y sgiliau yma, mae'n gwtio disgyblion i ddod yn ddysgwyr annibynnol. Esbonir Ken Robinson, wrth i ddisgyblion defnyddio sgiliau creadigol a dod i'r arfer o ddefnyddio'r sgil yma, mae'n datblygu gwybodaeth ac ehangu barn critigol yr unigolyn (Robinson, 2015). Gall cynnwys y sgil yma ym mhob pwnc ac ym mhob gwrs. Mae Dr. Carol Dweck yn cefnogi Robinson trwy nodi, wrth gynnwys y sgil yma mewn gwersi yn ogystal â sgiliau datrys problemau a gallu meddwl mewn modd beirniadol, mae'n rhoi'r adnoddau i ddisgyblion er mwyn iddyn nhw ddatrys problemau ac i lwyddo yn yr ysgol ac yn y byd go iawn (Dweck, 2012).

Mae gwaith (Robinson, 2015) hefyd yn esbonio nad yw disgyblaeth yn ddigon mewn gwersi. Nodir, bod angen i athrawon ddenu diddordeb y disgyblion ac i'w hysbrydoli er mwyn iddyn nhw ddysgu a datblygu y sgiliau yma oherwydd, wrth wneud hyn mae'n creu amodau lle mae disgyblion yn awyddus i ddysgu (Robinson, 2015). Mae John Mcpeck yn cefnogi Robinson trwy bwysleisio bod angen i sgiliau datrys problemau a meddwl mewn modd beirniadol cael eu haddysgu yn yr ysgol oherwydd esbonir, mae'r sgiliau yma yn nodwedd dynol, yn enwedig meddwl mewn modd critigol (John E. Mcpeck, 2017). Mae Dweck yn ehangu ar bwynt Mcpeck trwy esbonio bod meddwl mewn modd critigol a'r gallu i ddatrys problemau yn gymorth i ddisgyblion i gyfiawnhau dadleuon o fewn y pwnc ac mewn bywyd pob dydd (Dweck, 2012). Nodir, wrth ddatblygu y sgiliau yma mae'n helpu i ddatrys problemau oherwydd mae gan y disgyblion y sgil i ddileu damcaniaethau anghywir neu ddatrysiadau gwan (Dweck, 2012).

Felly, wrth ystyried y tair ffynonellau yma, mae'n bosib i gyfiawnhau bod y sgiliau yma yn bwysig i gynnwys yn y cwricwlwm ac felly eu cynnwys nhw o fewn y gwersi. Wrth gynnwys y sgiliau yma o fewn y gwersi, mae'n paratoi disgyblion am fywyd ar ôl gadael yr ysgol yn ogystal, mae'n rhoi cyfle iddyn nhw ymarfer y sgiliau yma mewn amodau rheoledig.

Cynnydd

Un o'r dulliau cyntaf defnyddiais i asesu dealltwriaeth ddisgyblion oedd i gael disgyblion i ysgrifennu brawddeg neu ffaith y dysgon nhw o'r wers. Ysgrifennon nhw frawddeg ar ddiwedd y wers. Mae'r dull yma o asesu disgyblion yn un effeithiol oherwydd mae'n annog disgyblion i feddwl nôl trwy'r wers a nodi unrhywbeth newydd dysgon nhw. Yn ogystal, roedd y dull yma o brofi dealltwriaeth y disgyblion yn llwyddiannus oherwydd nid oedd yn ddull arferol o asesu ac felly, nid oedd y disgyblion yn ymwybodol o'r asesiad. Fel nodir Coe et al (2014) er mwyn mesur llwyddiant disgyblion mae angen cael dull asesu effeithiol a llwyddiannus. Gwelais fod y dull yma yn un llwyddiannus oherwydd ysgrifennodd nifer fawr o ddisgyblion rhywbeth berthnasol i'r wers, gwelir yn y ffeil One note o dan enghraifft 1, brawddeg ysgrifennod disgybl blwyddyn 7. Roedd hyn yn effeithiol oherwydd gallwch weld olion y disgybl yn meddwl, mynd nôl dros nodiadau a thrafod y wers. Wrth iddyn nhw drafod, gallwch weld fod ganddynt y gallu i ddysgu ac i lwyddo. Er hyn, nid oedd pob disgybl wedi llwyddo i gyflawni'r dasg yma yn llwyddiannus. Roedd rhai disgyblion nai llai yn copio'i gilydd yn lle meddwl am beth mae nhw wedi dysgu yn unigol, neu roedden nhw'n copio ffaith o'r darn darllen dosbarthais i'r dosbarth er mwyn cyflawni'r dasg blaenorol. Ar ôl sylweddoli'r broblem yma, yng ngwrs blwyddyn 8, defnyddiais ddull tebyg ond gyda 'post it notes' a chasglais unrhyw daflennu gwaith er mwyn cael y disgyblion i wir ystyried y wers. Gan fod blwyddyn 8 ychydig mwy aeddfed, wnaethon nhw ysgrifennu neges ar Drydar yn lle (enghraifft 2). Eto, roedd hyn yn ddull lle nad oedden nhw'n ymwybodol ei fod yn asesiad a llwyddodd pawb i ysgrifennu rhywbeth y dysgon nhw. Er hyn, gwelir y

llwyddiant mwyaf mewn cwis gwnaeth blwyddyn 8 (enghraifft 3). Roedd e'n waith unigol, ac felly doedd dim trafodaeth am yr atebion, o ganlyniad roedd angen i bawb feddwl nôl dros y gwersi i geisio darganfod yr atebion. Defnyddiais y heriau oedd yn wynebu'r disgyblion o'r gwersi blaenorol fel cwestiynau'r cwis. Ymatebodd y disgyblion yn dda, a llwyddon nhw i roi ateb i'r cwestiynau. Cyfeiriodd Jørgen Frost a Ernst Ottem at ddatganiad Burns hynny yw, 'children whose self-concepts do not include the view that they can achieve academically, tend to fulfil that prediction' (Frost a Ottem, 2018, t.3). Felly, mae'n hanfodol i annog disgyblion i lunio meddylfryd positif yn y gwersi.

Yn ogystal â phwysigrwydd asesu, mae cwricwlwm trawsgwricwlaidd yn bwysig er mwyn datblygu sgiliau disgyblion. Mae sgiliau llythrennedd yn haws i blethu mewn i wersi Hanes. Mae yna nifer o ffurfiau gall denu'r sgil yma mewn i wersi Hanes yn naturiol. Enghraifft 4 yn y ffeil One Note yw darllen a deall. Roedd hyn yn ffordd defnyddiol i ddatblygu sgiliau darllen y disgyblion yn enwedig ym mlwyddyn 7. Roedd y dasg yma yn hybu dysgu yn annibynnol oherwydd roedd angen iddyn nhw ddarllen y gwybodaeth a darganfod yr atebion o fewn y darn i'r cwestiynau. Er roedd y dasg yma yn llwyddiannus ac yn hybu sgil llythrennedd, roedd rhai yn gweld y dasg yn rhy heriol ac felly y tro nesaf, roedd angen gwahaniaethu'r dasg er mwyn sicrhau gall pawb ei gyflawni. Yn ôl EEF (2018), mae tasgau darllen a deall yn un o ddulliau mwyaf effeithiol yn y byr tymor a'r hir dymor er mwyn datblygu sgiliau disgyblion. Nodir bod angen efallai addasu rhai ar gyfer disgyblion gyda llai o allu (EEF, 2018). Felly, dyma un o'r fy nhargedau ar gyfer y dyfodol. Ar ôl llwyddo cynnwys tasgau sy'n datblygu sgiliau llythrennedd, cyflwynais dasg rhifedd mewn i'r wers. Yn Hanes, mae'n anoddach i gynnwys tasgau rhifedd, ond ceisiais ddatblygu tasg rhifedd trwy'i gysylltu gydag adeiladu cestyll. Aeth y dasg yn eithaf llwyddiannus. Mwynheuodd rhan fwyaf y disgyblion y dasg a roedd rhai yn deall pwrpas y dasg. Ar y llaw arall, nid oedd pawb wedi llwyddo i gyflawni'r dasg neu yn deall ei phwrpas. Yn y dyfodol, bydd angen sicrhau bod pwrpas y dasg yn glir a bod pawb yn eu cyflawni. Mae rhifedd yn hollol bwysig ar gyfer datblygiad disgyblion. Yn ôl erthygl gan y Castle Partnership Trust (2018), os nad oes gan ddisgyblion sgiliau rhifedd cryf, bydd yn effeithio ar hyder a chynnydd y disgyblion. Felly bydd angen cynnwys mwy o dasgau rhifedd yn y gwersi. Y dasg mwyaf llwyddiannus allan o'r tair oedd y dasg oedd yn datblygu sgiliau cymhwysedd digidol. Llwyddodd pawb i ymchwilio mewn i wybodaeth, casglu'r gwybodaeth a chreu cyflwyniad neu boster ar Publisher. Gwelir enghraifft 6, gwaith gan unigolyn o flwyddyn 8. Llwyddodd i ymchwilio mewn i draddodiadau Nadolig a threfnu'r gwybodaeth i roi ar Bwynt Pwer. Roedd hyn yn ffordd dda a llwyddiannus i ddisgyblion ddysgu a datblygu'r sgil yma.

Ynghyd â rhain, ystyriais datblygu sgiliau creadigol, datrys problemau a meddwl mewn modd beirniadol. Gyda blwyddyn 7, ysgrifennodd disgyblion lythyr yn dychmygu bod yn blentyn yn gweithio mewn ffatri. Roedd hyn yn dasg effeithiol i annog y disgyblion i gofio'r wybodaeth trwy allu uniaethu gyda phlant oedd yn rhan o lafur plant. Llwyddodd bron i bawb ysgrifennu darn da oedd yn cynnwys ffeithiau dysgon nhw o'r gwersi. Er hyn, methodd rhai i gynnwys digon o wybodaeth gefndirol neu ffeithiau perthnasol. Dyma un her wrth gynnal tasgau creadigol yn Hanes. Er hyn, yn ôl (Beavis, 2018), wrth gyflwyno sgiliau creadigol mewn i'r cwricwlwm mae disgyblion yn mwynhau addysg yn fwy yn ogystal â gweld gwelliant yn y cwricwlwm. Mae hyn yn adlewyrchu'r syniad o allu cyflwyno'r sgil yma yn eithaf hawdd i wersi Hanes, gan fod e'n ffordd i ddisgyblion ddeall amodau yn ystod cyfnod penodol a bod dysgu mwy trwy allu uniaethu. I ehangu ar y dasg yma yn y dyfodol, gallaf ofyn i'r disgyblion adrodd y lythyr neu ysgrifennu ymson i ddatblygu eu sgiliau ymhellach. Yn ogystal â chyflwyno sgiliau creadigol i wersi, cyflwynais sgiliau datrys problemau. Cyflwynais dasg i flwyddyn 9 lle roedd disgwyl iddyn nhw ddarllen am achosion y Rhyfel Byd Cyntaf a nodi'r wybodaeth gywir yn y bocsys cywir. Gwelir cynnydd yn y dasg yma oherwydd roedd y dasg yn hybu dysgu annibynnol. Felly, roedd y disgyblion yn datblygu sgiliau datrys problemau yn ogystal â datblygu annibyniaeth o fewn y dosbarth. Er hyn, methodd rhai disgyblion y dasg. Roedd rhai yn copio'r wybodaeth yn union yr un peth ag oedd e ar y taflen gwybodaeth. Er mwyn i mi weld mwy o gynnydd o fewn fy nghwersi gyda'r saith Egwyddorion Addysgegol, mae angen hybu annibyniaeth wrth gyflawni rhai dasgau er mwyn gallu datrys rhai problemau yn unigol. Ynghyd â'r sgiliau yma, gwelais gynnydd gyda datblygu'r sgil o feddwl mewn modd critigol. Gyda'r enghraifft 9 sydd ar One Note, wnaethon nhw waith grŵp a dychmygu bod yn Brif Weinidog cyn ac yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd disgwyl iddyn nhw drafod a phenderfynu y peth gorau i wneud mewn sefyllfaoedd gwahanol. Roedd y dasg yma hefyd yn annog y disgyblion i uniaethu a defnyddio dychymyg o fod yn Brif Weinidog er mwyn deall y sefyllfa yn ystod y cyfnod yma. Llwyddodd y disgyblion i gyflawni'r dasg a thrafod yn addas am y dasg.

Wrth gyflawni'r holl dasgau uchod, mae'r disgyblion wedi gwella a datblygu yn y meysydd yma.

Datblygu ymhellach

Wrth astudio'r tair Egwyddor Addysgegol, gallaf weld fy nghynnydd o fy ngwers cyntaf. Llwyddais i gynnwys amrywiaeth o ddulliau a thasgau i annog disgyblion i ddatblygu eu sgiliau. Er fy mod i'n gweld cynnydd yn fy natblygiad, mae gen i fwy o gynnydd a gwelliant i wneud.

Un maes lle gallaf wneud cynnydd yn yr egwyddor asesu ar gyfer dysgu a'r egwyddor i hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a gallu meddwl mewn modd beirniadol yw trwy hybu disgyblion i weithio'n annibynnol. Wrth wneud y tasgau (gwelir egwyddor asesu ar gyfer dysgu), roedd y disgyblion yn efelychu gwybodaeth o'r taflennu dosbarthais ar gyfer y dasg yng nghanol y wers. Yn ogystal, gellir gweld o'r enghraifft o dan yr egwyddor hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a gallu meddwl mewn modd beirniadol, nad oedd pob disgybl yn llwyddo i ddefnyddio'r sgiliau yma i'w mantais nhw. Roedd rhaid annog a gwrthio rhai i ehangu ar eu gwaith ac i ddefnyddio'r sgiliau yma yn effeithiol. Felly, darganfyddais, er mwyn i mi weld cynnydd yn fy natblygiad i o fewn y dosbarth, bod angen i mi hybu disgyblion i weithio'n annibynnol yn y dosbarth. Mae annibyniaeth yn holl bwysig ar gyfer bywyd tu allan o'r ysgol ac yn y byd gwaith (Gershon, 2014). Yn ôl yr Academi Addysg Uwchradd (2015), mae gweithio'n annibynnol yn cynnwys datblygiad o ddealltwriaeth a chymryd cyfrifoldeb dros ddysgu. Mae (Gershon, 2014) yn cynnig nifer o ddulliau a strategaethau i hybu annibyniaeth o fewn y dosbarth, er enghraifft, pwysleisir bod methiant yn arwain at lwyddiant (rydych yn dysgu o'ch camgymeriadau) a chanmoliaeth cyson i'r disgyblion er mwyn iddyn nhw ddatblygu ei sgiliau ymhellach. Yn ogystal, mae (Gershon, 2014) yn cynnig bod angen sicrhau bod amcanion a nôd y dasg neu'r wers yn glir er mwyn iddyn nhw ddeall pwrpas y gwaith a phwysigrwydd o gwblhau'r dasg yn annibynnol. Bydd cwestiynau agored hefyd yn annog disgyblion i feddwl a gweithio'n annibynnol oherwydd ni fydd un ateb cywir ac felly bydd yna gyfle iddyn nhw feddwl am y gwaith yn hytrach na chynnig un ateb pendant (Gershon, 2014). Bydd y strategaethau yma yn gymorth i mi wrth ddatblygu'r egwyddorion yma oherwydd mae'n ffordd o ddatblygu'r disgyblion ymhellach i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau yn y dosbarth a thu allan o'r dosbarth ac i gyrraedd eu potensial.

Beavis, R. (2018) *Bringing creative learning to life across the curriculum*. Available at: <https://www.tes.com/news/bringing-creative-learning-life-across-curriculum-sponsored-article> (Accessed: 1st January 2020).

Black, P. et al. (2005) *Assessment for learning. Putting it into practice*. Berkshire: Open University Press.

Coe, R. et al. (2014) *What makes great teaching? Review of the underpinning research*. Available at: <https://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2014/10/What-Makes-Great-Teaching-REPORT.pdf> (Accessed: 29th December 2019).

Donaldson, G. (2015) 'Successful Futures: Independent Review of Curriculum and Assessment', *Curriculum reviews*. Available at: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/successful-futures.pdf> (Accessed 16th December 2019).

Dr. Dweck, C. (2017) *Mindset. Changing the way you think to fulfil your potential* 2nd Ed. London: Robinson.

Education Endowment Foundation. (2018) *Reading comprehension strategies*. Available at: <https://educationendowmentfoundation.org.uk/evidence-summaries/teaching-learning-toolkit/reading-comprehension-strategies/#closeSignup> (Accessed: 1st January 2020).

Estyn. (2019) *Creating a vision for continuous improvement*. Available at: <https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/creating-vision-continuous-improvement> (Accessed: 21st December 2019).

Estyn. (2019) *Developing pupils' digital skills*. Available at: <https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/developing-pupils-digital-skills> (Accessed: 21st of December 2019).

Frost, J. and Ottem, E. (no date) *Running head: The value of assessing pupils' academic self-concept*. Available at: https://www.duo.uio.no/bitstream/handle/10852/71045/Frost_Value%2bof%2bassessing%2bpupils_final.pdf?sequence=2&isAllowed=y (Accessed: 29th of December 2019).

Gershon, M. (2014) *How to develop independent learners. Practical ideas and strategies for creating a more independent learning environment*. Available at: https://www.tes.com/sites/default/files/tes_strategies_to_develop_independent_learners.pdf (Accessed 2nd January 2020)

Hayes, D. (2010) 'The seductive charms of a cross-curricular approach', *Education 3-13*, 38(4), pp.381-387. DOI: 10.1080/03004270903519238.

Llywodraeth Cymru (2010) *Why develop thinking and assessment for learning in the classroom?* Available at: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/05/ae/7b/09/4ca143999dea481cd5d23846/why-develop-thinking-and-assessment-for-learning-in-the-classroom.pdf> (Accessed: 19th December 2019).

McPeck, J. (2017) *Critical Thinking and Education* 2nd Ed. Oxon: Routledge.

Robinson, K. and Aronica, L. (2016) *Creative Schools. UK: Penguin Books*.

The Castle Partnership Trust. (2018) *Numeracy Across the Curriculum Policy*. Available at: https://www.castleschool.co.uk/uploads/pdf-files/34-Numeracy_Across_the_Curriculum.pdf (Accessed: 1st January 2020).

Thomas, L., Jones, R. and Ottway, J. (2018) *Effective practice in the design of directed independent learning opportunities*. Available at: <https://www.advance-he.ac.uk/knowledge-hub/effective-practice-design-directed-independent-learning-opportunities> (Accessed 2nd January 2020)

William, D. (2017) *Embedded Formative Assessment: (Strategies for Classroom Assessment That Drives Student Engagement and Learning* 2nd Ed. United States of America: Solution Tree Press.